Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad o Sicrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Datblygu

## Cynllun Taliadau Gwasanaethau Datblygu 2023/24

Ystyriodd y Bwrdd Taliadau'r Gwasanaeth Datblygu ar gyfer 2023/24 yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2022. Nododd y Bwrdd y gofynion o ran gwybodaeth a'r deunyddiau ategol perthnasol, a chyflwynodd ymholiadau priodol i'r Tîm Gweithredol, ac i'r Cyfarwyddwr Strategol a Rheoleiddio'n benodol. Ystyriodd y Bwrdd adroddiad gan Jacobs, a gyflogwyd i ddarparu sicrwydd allanol bod systemau a'r prosesau a ddefnyddiwyd i lunio'r wybodaeth a gyhoeddir am y taliadau cyfanwerthu'n gadarn, ac i adolygu'r broses ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau cyfreithiol.

Wedi cyflawni'r ymholiadau rhesymol a pherthnasol uchod, gallwn gadarnhau, hyd eithaf ein dealltwriaeth, bod y taliadau a nodir yng Nghynllun Taliadau Gwasanaethau Datblygu Dŵr Cymru 2023/24 yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol y mae'r cwmni'n rhwym iddynt o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd) a deddfwriaeth berthnasol arall.

Paratowyd y ddogfen a'r wybodaeth ategol sy'n ofynnol gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau a systemau rheoli mewnol priodol, ac fe'u paratowyd yn unol â hynny i'r safonau y gellid ei disgwyl yn rhesymol gan ymgymerydd diwyd.

Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi asesu effeithiau'r taliadau newydd ar filiau cwsmeriaid ar gyfer amrywiaeth o wahanol fathau o ddatblygiadau. Mae'r Bwrdd yn nodi effaith y pwysau o du chwyddiant a'r cynnydd mewn costau deunyddiau ar y newidiadau hyn, sy'n achosi cynnydd o dros 10% ar gyfer pob math o ddatblygiad. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod y dull a gynigir i gysylltu a chyfathrebu â datblygwyr am y cynnydd mewn prisiau yn briodol.

Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 1 Rhagfyr 2022, dirprwyodd y Bwrdd gyfrifoldeb dros roi sêl bendith terfynol i Gynllun Taliadau'r Gwasanaethau Datblygu 2023/24 (a'r wybodaeth ategol angenrheidiol) i'r Cadeirydd, yn dilyn cyhoeddiad y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH) ar 14 Rhagfyr 2022.

**Alastair Lyons**
**Cadeirydd**

Ar ran y Bwrdd
19 Rhagfyr 2022